Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

PENODI AELOD CYMREIG I'R AWDURDOD MEINWEOEDD DYNOL

Dyddiad cau: 1 Chwefror 2021, 4pm

Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb mewn penodi Aelod Cymreig i'r Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA).

I wneud cais, ewch i wefan Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-f0c9ca5c2c51/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi gyflwyno'r ffurflen gais a **dwy** ddogfen ategol. Dogfen yn ateb y cwestiynau isod yw'r gyntaf, sef 'datganiad personol'. Ni ddylai'r ddogfen hon fod yn fwy na dwy dudalen A4. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn. Curriculum vitae (CV) llawn, cyfredol yw'r ail ddogfen y bydd rhaid ichi ei chyflwyno. Dylech lanlwytho'r ddwy ddogfen i'r adran "Rhesymau dros ymgeisio" o'r ffurflen gais ar-lein. Dylech ddefnyddio ffont maint 12pt o leiaf ar y dogfennau ategol.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir yn y cwestiynau isod. Chi fydd yn penderfynu sut fyddwch am gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol.

Nodwch hefyd y bydd eich tystiolaeth hefyd yn cael ei hasesu i benderfynu a oes gennych y lefel angenrheidiol o brofiad i weithredu'n effeithiol ar lefel y Bwrdd.

Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Cwestiynau i'w hateb fel rhan o'ch cais yn eich datganiad personol

Ar dudalen 5 isod fe welwch fanyleb y person, gan gynnwys yr wybodaeth a'r profiad yn ogystal â'r priodoleddau personol sy'n ofynnol ar gyfer y rôl hon. Bydd y panel yn chwilio am enghreifftiau cryf o sut rydych yn bodloni'r gofynion hyn. Yn eich datganiad personol, rhowch **enghreifftiau, gyda chanlyniadau, i ddangos sut** yr ydych yn bodloni manyleb y person ym mhob achos.

Curriculum Vitae

Byddwch cystal â sicrhau bod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	1 Chwefror 2021, 4pm
Llunio rhestr fer:	8 Chwefror 2021
Cynnal cyfweliadau:	Mawrth 2021
Dyddiad dechrau:	Ebrill 2021

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am swyddi ar gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Mae gan Lywodraeth Cymru Gynllun Gwarantu Cyfweliad i bobl anabl. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person anabl fel person sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. O dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, bydd ymgeisydd anabl yn cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad os bydd yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd.

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:
Tîm Penodiadau Cyhoeddus penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth neu i drefnu trafodaeth anffurfiol am rôl y Cadeirydd, cysylltwch â:

Yr Athro Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol.
Ffôn: 03000 257143
E-bost: chris.Jones@llyw.cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am yr HTA ar gael yn:
https://www.hta.gov.uk/about-us

Y Broses Ddethol

Mae penodiadau i'r HTA yn cael eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ac felly fe'u gwneir yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd ar Benodiadau Gweinidogol i Gyrff Cyhoeddus. Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo cyfle cyfartal a'i ymgorffori ym mhob agwedd ar ei gwaith, gan gynnwys penodiadau i gyrff cyhoeddus. Croesewir ac anogir ceisiadau gan bob grŵp ac rydym yn sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd cymwys am swydd gyhoeddus yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oed, anabledd, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, neu feichiogrwydd a mamolaeth. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn cael eu parchu, a phenodir ar sail teilyngdod.

Cefndir a Chyd-destun

Sefydlodd Deddf Meinweoedd Dynol 2004 yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA) fel y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am weithgareddau'n ymwneud â dileu, storio, defnyddio a gwaredu meinwe dynol ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd hyn yn dilyn digwyddiadau yn y 1990au a ddatgelodd ddiwylliant mewn ysbytai o gael gwared ar organau a meinweoedd dynol a'u cadw heb ganiatâd. Daethpwyd â nifer o weithgareddau yn ymwneud â meinweoedd dynol y mae angen trwydded gan yr HTA ar eu cyfer at ei gilydd o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004. Dyma'r gweithgareddau:

- cynnal archwiliad anatomegol
- gwneud archwiliad post-mortem
- cymryd meinwe dynol o berson ymadawedig i'w ddefnyddio at ddibenion penodol a restrir yn y Ddeddf, er enghraifft pennu achos marwolaeth, ymchwil, archwiliad anatomegol, archwiliad clinigol
- storio sbesimen anatomegol
- storio corff person ymadawedig at ddibenion penodedig penodol
- arddangos cyrff dynol neu feinwe yn gyhoeddus (e.e. mewn amgueddfa)

Diben a swyddogaethau

Mae'r HTA yn un o ddau awdurdod cymwys sydd â chyfrifoldeb ledled y DU dros reoleiddio meinweoedd a chelloedd ar gyfer triniaeth cleifion yn unol â Chyfarwyddebau Ewropeaidd. Ef hefyd yw awdurdod cymwys y DU at ddibenion y Gyfarwyddeb Rhoi Organau sy'n pennu safonau gofynnol ar gyfer ansawdd a diogelwch rhoi a thrawsblannu organau ledled yr UE.

Mae'r HTA yn trwyddedu mwy nag 800 o sefydliadau sy'n storio ac yn defnyddio meinweoedd dynol mewn cysylltiad â'r gweithgareddau a gwmpesir gan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 a Chyfarwyddebau Ewropeaidd.

Mae gan yr HTA rôl gyffredinol o oruchwylio cydymffurfiaeth â Deddf Meinweoedd Dynol 2004 a Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, gan gynnwys rhoi cyngor ac arweiniad i bobl sy'n cyflawni gweithgareddau a gwmpesir gan y Deddfau hyn, aelodau o'r cyhoedd a Gweinidogion. Er enghraifft, mae'r HTA yn rhoi cyngor i aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno rhoi eu cyrff i ysgolion meddygol i'w harchwilio'n anatomegol ar ôl eu marwolaeth (yr hyn y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei alw'n "gadael eich corff ar gyfer gwyddoniaeth feddygol"). Mae'r HTA hefyd yn cyhoeddi codau ymarfer sy'n rhoi arweiniad ymarferol i weithwyr proffesiynol sy'n cyflawni gweithgareddau sydd o fewn ei gylch gwaith, gan gynnwys rhoi organau.

Mae rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 a Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhodd o organau gan bobl fyw, a rhoddion o fêr esgyrn a bôn-gelloedd gwaed amgantol (PBSCs) gan blant ac oedolion nad oes ganddynt alluedd, gael eu cymeradwyo gan yr HTA. Mae hyn er mwyn sicrhau na roddwyd unrhyw wobr amdanynt, nad oes unrhyw bwysau na gorfodaeth yn gysylltiedig â'r rhoi, a bod cydsyniad dilys ar waith. Mae aelodau'r Awdurdod yn chwarae rhan allweddol yn y broses gymeradwyo. Mae'r HTA hefyd yn

asesu achosion o roi organau byw yn yr Alban o dan gytundeb â Llywodraeth yr Alban.

Disgrifiad o'r rôl

Mae'r Aelod Cymreig yr HTA yn un o nifer o aelodau annibynnol sy'n gyfrifol am ddwyn yr HTA i gyfrif am ei weithgareddau a sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion strategol. Bydd yr Aelod hefyd yn sicrhau atebolrwydd yr HTA i Weinidogion Cymru a bod polisïau Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried yng ngwaith yr HTA.

Manyleb y Person (pwysig – darllenwch)

Bydd yr Aelod Cymreig yn arddangos y rhinweddau canlynol:

Gwybodaeth a Phrofiad – rhowch sylw i'r rhain yn eich datganiad personol

- Profiad o fod yn ymrwymedig i amcanion Bwrdd neu Bwyllgor a'r diddordeb a'r ymroddiad i wneud cyfraniad gwirioneddol i Fwrdd neu Bwyllgor;
- Profiad o graffu a herio Bwrdd neu Bwyllgor yn effeithiol, ac o'i ddwyn i gyfrif am ei berfformiad neu am gyflawni ei strategaeth;
- Profiad o feddwl yn strategol ac arfer barn gadarn ar faterion cymhleth a sensitif;
- Profiad o ddangos y safonau uchaf o briodoldeb personol mewn perthynas â llywodraethu, atebolrwydd, risg a rheolaeth ariannol.
- Profiad neu sgiliau mewn un neu fwy o'r canlynol:
    - Profiad proffesiynol yn unrhyw un o'r sectorau a reoleiddir gan yr HTA;
    - Profiad o roi a thrawsblannu organau naill ai o safbwynt claf neu ymarferydd;
    - moeseg feddygol, clinigol neu ymchwil;
    - Data a dadansoddeg fel sbardunau ar gyfer trawsnewid digidol.

Priodoleddau a Sgiliau Personol – rhowch sylw i'r rhain yn eich datganiad personol

- Sgiliau rhyngbersonol cadarn a digon o ddylanwad personol a hygrededd i fod yn eiriolwr a llysgennad effeithiol, gyda sgiliau dylanwadu a thrafod cadarn;
- Ymrwymiad a phenderfyniad, ynghyd â'r gallu i feithrin gweledigaeth a datblygu strategaethau wedi'u diffinio, er mwyn cyflawni nodau tymor hir a thymor byr;
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i fod yn glir ac yn gryno a hwyluso dealltwriaeth o faterion cymhleth tra'n dangos parch at farn pobl eraill;

- Y gallu i gymryd i mewn lawer o wybodaeth ac i werthuso tystiolaeth gymhleth o fewn cyfnod byr o amser;

- Barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol;

- Y gallu i fod yn annibynnol ac yn gadarn.

Rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos:

- Dealltwriaeth eglur o faterion cydraddoldeb ac arferion gwahaniaethol heriol ac ymrwymiad iddynt;

- Dealltwriaeth glir o 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan', ynghyd ag ymrwymiad iddynt.

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol. Disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi at yr iaith a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad ymhelaethu ar sut maent yn bodloni'r meini prawf uchod gan ddefnyddio enghreifftiau a thystiolaeth.

Telerau Penodi

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn gwneud y penodiad.

Hyd y Penodiad

Gellir penodi'r Aelod Cymreig am gyfnod cychwynnol o dair (3) blynedd, a chaiff fod yn Aelod am uchafswm o chwe (6) blynedd. Fodd bynnag, ni ddylid rhagdybio ail dymor, sy'n destun ystyriaeth Weinidogol.

Pwy sy'n gymwys

Ni fydd unigolyn yn gymwys i gael ei benodi:

a. os yw wedi'i gael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd a'i ddedfrydu i garchar (boed yn garchar gohiriedig neu fel arall) am gyfnod o 3 mis o leiaf a heb gael yr opsiwn o ddirwy;
b. os yw'n destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn interim neu os yw wedi gwneud cyfaddawd neu drefniant â'r credydwyr;
c. os cafodd eu ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd; ac
d. os terfynwyd ei aelodaeth fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr corff gwasanaeth iechyd, ac eithrio oherwydd diswyddiad, ymddiswyddiad gwirfoddol, ad-drefnu'r corff, neu ddod â'r cyfnod swydd y penodwyd y person hwnnw ar ei gyfer i ben.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais yn yr adran Gwrthdaro rhwng Buddiannau o'r ffurflen gais.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Yn benodol, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod i'r amlwg ar ôl eu penodi.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd y tîm penodiadau cyhoeddus yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd a gaiff ei ddethol ar gyfer cyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys chwilio'r cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd, ond nid hynny'n unig o reidrwydd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad am ffrwyth y broses diwydrwydd dyladwy.

Ymrwymiad Amser

Mae swydd Aelod Cymreig yr HTA yn seiliedig ar ymrwymiad amser o 2-3 diwrnod y mis.

Tâl

Mae gan yr Aelod Cymreig hawl i gael tâl trethadwy o £7,883 y flwyddyn.

Treuliau

Bydd gennych hawl i gael ad-daliad, os yw hynny'n briodol, drwy gyflwyno derbynebau ar gyfer y costau teithio a chynhaliaeth a fydd yn codi wrth ichi wneud gwaith yr HTA.

Gellir talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill hefyd, os cyflwynir derbynebau, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r HTA.

Cymorth i Aelodau Anabl

Lle bo hynny'n briodol, caiff pob addasiad rhesymol ei wneud er mwyn i'r aelodau fedru cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Dyddiad dechrau

Ebrill 2021